Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Panel Craffu

## Ymarfer Hap-samplu

## Achosion o siop-ladrad

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau’r Panel ar Achosion Oedolion

## Mawrth 2026

# Cynnwys

1.0 Trosolwg ........ 2
2.0 Cefndir, diben a methodoleg ........ 2
3.0 Cymeradwyaeth gan gadeirydd y panel ........ 3
4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel ........ 3
5.0 Meysydd i'w gwella ........ 3
6.0 Ystyriaeth o achosion oedolion ........ 3
7.0 Asesiadau'r panel hyd yma ........ 6
8.0 Ethnigrwydd a rhywedd ........ 9
9.0 Ffocws y panel yn y dyfodol ........ 9
10.0 Camau gweithredu ........ 10

## 1.0 Trosolwg

Ar 25 Mawrth 2026, aeth aelodau o'r Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys i gyfarfod i adolygu detholiad o wyth achos oedolion ac wyth achos ieuenctid yn ymwneud â throseddau siop-ladrad yr ymdriniwyd â hwy drwy ddatrysiad y tu allan i'r llys. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r panel mewn perthynas ag achosion oedolion.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir trwy gyfrwng Microsoft Teams.

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Diben y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys yw asesu, craffu a rheoli yn annibynnol ansawdd y defnydd o ddatrysiad y tu allan i'r llys gan Heddlu Dyfed-Powys. Gall y panel wneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arferion gorau a nodi anghenion datblygu polisi neu anghenion hyfforddi posibl i'w hystyried gan yr heddlu neu asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig. Ni all y panel newid canlyniad gwreiddiol yr achos.

Mae aelodaeth y panel yn cynnwys partneriaid o fewn y system cyfiawnder troseddol sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a mainc o ynadon.

Gyda'i gilydd mae aelodau'r panel yn cytuno ar faes i ganolbwyntio arno ym mhob cyfarfod. Maent yn cael ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod, sydd wedi'u dewis ar hap gan gadeirydd y panel. Yna, mae'r panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle bo'n bosibl, yn dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y datrysiad. Wrth benderfynu ar hyn, mae'r panel yn ystyried y meini prawf canlynol:

- barn ac adborth y dioddefwr a'r troseddwr.
- cydymffurfedd â pholisi'r heddlu.
- y rhesymeg dros y penderfyniad a'r canlyniad.
- yr effaith bosibl ar y gymuned.
- yr amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd.
- opsiynau eraill posibl a allai fod wedi bod ar gael.

Mae'r panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- defnydd priodol sy'n gyson â pholisi.
- defnydd priodol ond bod gan aelodau'r panel amheuon.
- defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi.
- y panel yn methu â dod i gasgliad.

## 3.0 Cymeradwyaeth gan gadeirydd y panel

Gallaf, Carys Morgans (enw mewn print) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y panel yn ystod ein hymarfer hapsamplu dyddiedig 25 Mawrth 2026.

Llofnodwyd: 

Dyddiad: 01/07/2026

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys, mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:

- Rhoddwyd adborth i swyddogion pan benderfynodd y panel fod datrysiad y tu allan i'r llys amhriodol wedi'i wneud.

## 5.0 Meysydd i'w gwella

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella yn ystod yr adolygiad o achosion oedolion:

- Nodwyd y gellid gwella amseroldeb cynnal yr ymchwiliad a chyhoeddi datrysiad y tu allan i'r llys ar gyfer y rhan fwyaf o'r achosion a adolygwyd.
- O fewn un achos cydnabuwyd nad nodwyd gwerth yr eitemau a gafodd eu dwyn. O ganlyniad, cwestiynodd y panel sut y gallai'r swyddog(ion) fod wedi gwneud penderfyniad gwybodus.
- Roedd y panel yn dymuno gweld mwy o safoni yn log sail rhesymegol y swyddogion, gan iddynt ganfod anghysondebau o ran nifer y manylion a roddir yn yr adroddiadau.

## 6.0 Ystyriaeth o achosion oedolion

O'r wyth achos yn ymwneud ag oedolion a ystyriwyd gan y panel, deliwyd ag un drwy rybuddiad amodol ar gyfer oedolion, a deliwyd â'r saith achos arall drwy ddatrysiad cymunedol oedolion.

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 5 |
| Priodol ond gydag amheuon | 2 |
| Amhriodol | 1 |

Manylir ar sylwadau aelodau'r panel isod.

**Achos 1**

Bu trafodaeth ynghylch gwerth uchel yr eitemau a gafodd eu dwyn a bod gan y troseddwr honedig drosedd flaenorol o siop-ladrad, er nad oedd o fewn y cyfnod o 12 mis diwethaf. Cafwyd amheuon ynghylch prydlondeb y swyddogion i leoli ac arestio'r troseddwr honedig. Ar ôl ystyried yr amgylchiadau, daeth y panel i'r casgliad bod defnyddio datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol, ond bod amheuon ynghylch sut yr ymdriniwyd â'r achos.

**Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuon**

**Achos 2**

Nodwyd gan y panel bod y troseddwr honedig wedi cyfaddef i'r drosedd a bod y gwerth wedi'i ad-dalu i'r siop. Trafodwyd nad oes gan y troseddwr honedig unrhyw euogfarnau blaenorol a bod y dioddefwr yn cefnogi'r datrysiad cymunedol oedolyn. Felly, barnodd y panel fod y canlyniad yn briodol.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Achos 3**

Cydnabuwyd bod y dioddefwr wedi cytuno ar amodau'r datrysiad cymunedol oedolyn a bod y troseddwr honedig wedi cyfaddef yn llawn i'r drosedd. Fodd bynnag, nododd y panel broblemau o ran prydlondeb yr achos, ond nododd fod anawsterau wedi bod wrth ddod o hyd i'r troseddwr honedig. Barnwyd bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Achos 4**

Nodwyd adolygiad manwl y goruchwyliwr gan y panel, ond nododd nad oedd y swyddogion wedi nodi cyfanswm gwerth yr eitemau a gymerwyd. Er y cydnabuwyd bod yr eitemau wedi'u dychwelyd a bod y troseddwr honedig wedi cyfaddef yn llawn, cwestiynodd y panel sut y gallai'r swyddogion wneud penderfyniad gwybodus heb wybod gwerth llawn yr eitemau a gymerwyd. Fodd bynnag, cytunwyd bod datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol, ond cafwyd amheuon ynghylch y manylion yn y cofnod.

**Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuon**

| |
|---|
| **Cam gweithredu 1: Swyddog(ion) i gael adborth y panel ar achos oedolyn 4.** |

**Achos 5**

Cododd y panel bryderon bod y troseddwr honedig wedi cael y datrysiad y tu allan i'r llys am siop-ladrad tra roedd yn y ddalfa am drosedd arall a chwestiynodd a ellid bod wedi delio â'r ddwy drosedd gyda'i gilydd. Nodwyd hefyd nad oedd y troseddwr honedig wedi bod yn ymgysylltu â'r tîm rheoli troseddwyr integredig ar gyfer trosedd blaenorol a'i fod ar orchymyn cymunedol ar adeg y drosedd siop-ladrad. Felly penderfynodd y panel fod y datrysiad y tu allan i'r llys yn amhriodol.

**Asesiad y panel: Amhriodol**

| |
|---|
| **Cam gweithredu 1: Swyddog(ion) i gael canfyddiadau'r panel ar achos oedolyn 5 sy'n ddefnydd amhriodol o'r polisi datrysiad y tu allan i'r llys.** |

**Achos 6**

Bu'r panel yn trafod bod yr eitemau a gymerwyd o werth isel a bod y troseddwr honedig wedi cyfaddef yn llawn. Nodwyd hefyd fod y dioddefwr yn cefnogi'r canlyniad. Daethpwyd i'r casgliad bod y datrysiad y tu allan i'r llys yn briodol o dan yr amgylchiadau.

**Asesiad y panel: Priodol**

**Achos 7**

Nodwyd bod y dioddefwr yn cefnogi'r canlyniad a bod y troseddwr honedig wedi cyfaddef i'r drosedd. Ystyriodd y panel werth yr eitemau a gafodd eu dwyn a chytunodd eu bod o werth isel, felly na fyddai wedi bod er budd y cyhoedd dod â'r mater hwn gerbron y llys.

**Asesiad y panel: Priodol**


**Achos 8**

Nodwyd gan y panel bod yr eitemau a gafodd eu dwyn wedi cael eu hadfer a bod y troseddwr honedig wedi cyfaddef. Er bod gan y troseddwr honedig hanes blaenorol o siop-ladrad, nodwyd bod y drosedd ddiwethaf wedi digwydd yn 2013. Felly, cytunodd y panel fod y canlyniad yn briodol ac yn unol â'r polisi datrysiad y tu allan i'r llys.

**Asesiad y panel: Priodol**


## 7.0 Asesiadau'r panel hyd yma

Mae'r siart isod yn dangos asesiad y panel o achosion o siop-ladrad ymhlith oedolion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf:




Mae’r panel wedi ystyried amrywiaeth o ddatrysiadau. Ar gyfer mis Mawrth 2025, roedd 99% o'r datrysiadau a ystyriwyd yn ddatrysiad cymunedol oedolyn, ac 1% yn weithgaredd dargyfeiriol (canlyniad 22). Ym mis Mawrth 2026, deliwyd â 99% o'r achosion a ystyriwyd drwy ddatrysiad cymunedol oedolyn, ac 1% drwy rybudd cymunedol oedolyn.


Gellir gweld y newid yng nghasgliadau’r panel rhwng mis Mawrth 2025 a mis Mawrth 2026 yn y graff isod:




Mae’r graff isod yn dangos y dadansoddiad yn ôl math o drosedd fel canran o achosion a ystyriwyd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2026.





Mae'r graff canlynol yn dangos nifer gwirioneddol yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y panel yn sgil hynny yn eu cyfarfodydd rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2026.



## 8.0 Ethnigrwydd a rhywedd

Mae'r siart canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran rhywedd:




Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.

| Ethnigrwydd a nodwyd | Unigolyn dan amheuaeth Hunan-asesiad | Asesiad y swyddog |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 8 | 8 |
| Gwyn – Gogledd Ewrop | 0 | 0 |
| Anhysbys | 0 | 0 |

Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb o ran hil na rhywedd fel rhan o adolygiad y panel.

## 9.0 Ffocws y panel yn y dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y panel y byddent yn hoffi canolbwyntio ar adolygiad o achosion sy'n ymwneud ag ymosodiadau ar weithwyr y gwasanaethau brys yn y cyfarfod nesaf.

## 10.0 Camau gweithredu

| Rhif gweithredu | Crynodeb | I’w yrru yn ei flaen gan |
|---|---|---|
| Datrysiad y tu allan i’r llys – 166 | Swyddog(ion) i gael adborth gan y panel ar achos oedolyn 4. | Yr heddlu |
| Datrysiad y tu allan i’r llys – 167 | Swyddog(ion) i gael canfyddiadau'r panel ar achos oedolyn 5 sy'n ddefnydd amhriodol o'r polisi datrysiad y tu allan i’r llys | Yr heddlu |